Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion
30 Ebrill 2009

Estyn yn chwilio am ddoniau, doethineb a mewnwelediad o'r newydd

**Sylwch, mae'r astudiaethau achos wedi'u proffilio yn y Nodiadau i olygyddion ar dudalen 2*

Heddiw, mae Estyn, yr Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn lansio ymgyrch recriwtio newydd ar gyfer arolygwyr lleyg. Dros y deufis nesaf, mae'r arolygiaeth yn gobeithio denu tua 30 o bobl ddawnus i weithio gyda thimau arolygu ysgolion.

Mae hon yn rôl unigryw a chyffrous. Disgwylir i arolygwyr lleyg ddarparu asesiad gwrthrychol a diduedd o'r ddarpariaeth addysg ac adrodd yn onest ac yn deg ar yr agweddau y maent yn eu harolygu. Dylent gofio bob amser eu bod yno i weithredu er lles y dysgwyr.

Dywedodd Alun Morgan, AEM, sy'n arwain yr ymgyrch recriwtio hon, *"Mae bod yn arolygydd lleyg yn gyfle gwych i weithio er mwyn gwella ansawdd yr addysg mewn ysgolion."*

"Rydym ni'n chwilio am ymgeiswyr sydd â medrau chyfathrebu a rhyngbersonol ardderchog, ac sy'n gallu gweithio dan bwysau a chynnig persbectif o'r newydd ar ddarparu addysg."

Ni all darpar ymgeiswyr fod ag unrhyw brofiad personol o reoli neu ddarparu addysg mewn ysgol. Fodd bynnag, gallant fod wedi gweithredu mewn capasiti gwirfoddol neu fel llywodraethwr.

Gall ymgeiswyr sydd â diddordeb lawrlwytho'r pecyn cais oddi ar wefan Estyn. Pan fydd y ceisiadau sydd wedi'u cwblhau wedi cael eu hasesu, bydd yr ymgeiswyr a ddewisir yn cael eu gwahodd i fynychu cwrs hyfforddi tridiau yn Llanelwy, Gogledd Cymru o 14 –16 Gorffennaf. Os byddant yn cwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus, gofynnir iddynt wedyn gofrestru gydag Estyn fel arolygydd lleyg. Pan gaiff eu henw ei roi ar y rhestr o arolygwyr lleyg, bydd ymgeiswyr yn gymwys i weithio a byddant yn cael eu gwahodd i dendro gan gontractwyr allanol i gynorthwyo ar arolygu ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ledled Cymru.

Am ragor o wybodaeth, trowch at ein gwefan www.estyn.gov.uk

-DIWEDD-

Nodiadau i Olygyddion:

Astudiaethau achos arolygwyr lleyg

*******Sylwch fod enwau'r bobl sydd wedi'u proffilio isod wedi cael eu newid er mwyn peidio â datgelu pwy ydynt*

Astudiaeth achos 1
Cafodd Daniel Smith o Ogledd Cymru ei recriwtio fel arolygydd lleyg ym 1994. Ers hynny, mae wedi cymryd rhan mewn dros 200 o arolygiadau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru. Fel tad i ddau o blant a chyn-gadeirydd llywodraethwyr, mae ganddo ddiddordeb personol brwd mewn addysg ac mae'n ymwybodol iawn o'i phwysigrwydd ym mywydau pobl ifanc. Am y rhesymau hyn, penderfynodd Daniel wneud cais am rôl arolygydd lleyg gydag Estyn.

Pan ymgeisiodd Daniel am y rôl, roedd yn gweithio'n amser llawn i awdurdod lleol ac roedd yn gwybod y byddai'n gallu dod i ben â'i faich gwaith oherwydd cynllun gweithio hyblyg ei gyflogwr. Roedd ei gais yn llwyddiannus, a chafodd ei wahodd i fynychu cwrs hyfforddi Estyn, a oedd yn ei farn ef wedi'i baratoi'n llawn ar gyfer ei rôl newydd.

Yn ystod arolygiad, gall Daniel fod ar safle am unrhyw gyfnod hyd at 3 diwrnod, yn dibynnu ar faint yr ysgol, a'i rôl yn bennaf yw rhoi cyngor diduedd a rhoi persbectif o'r newydd ar ddarparu addysg. Mae rhai o'r materion y mae'n canolbwyntio arnynt yn cynnwys agweddau fel presenoldeb, ymddygiad ac ansawdd adeiladau ac adnoddau'r ysgol.

Ar hyn o bryd, mae Daniel yn rheolwr gyfarwyddwr cwmni bach sy'n rhoi'r hyblygrwydd iddo barhau â'i rôl fel arolygydd lleyg gydag Estyn. Pan fydd cyfle i ymuno â thîm arolygu yn codi, caiff wybod ymhell ymlaen llaw fel ei fod yn gallu rheoli ei fusnes. Mae bod yn arolygydd lleyg wedi rhoi boddhad personol a phroffesiynol, gan alluogi iddo ddatblygu ei fedrau sefydliadol a rheoli.

Astudiaeth achos 2
Fel rheolwr hunangyflogedig yn ei gwmni diogelwch ei hun, gwelodd Jim Braine gyfle i ddefnyddio ei fedrau a'i wybodaeth am sicrhau ansawdd yn rôl arolygydd lleyg. Fel unigolyn hyblyg sydd â meddwl agored, roedd yn awyddus i weithio mewn sector newydd a bod yn rhan o dîm.

Buan yr ymsefydlodd Jim fel arolygydd lleyg a gweithiodd ar ryw 100 o arolygiadau dros gyfnod o 10 mlynedd. Croesawyd ei fewnwelediad heriol gan y timau arolygu y bu'n gweithio gyda nhw. Rhoddodd pob arolygiad bersbectif newydd iddo ar bob maes o fywyd ysgol, gan ddyfnhau ei ddiddordeb mewn addysg.

Mae Jim yn credu mai'r allwedd i fod yn arolygydd lleyg yw gwaith caled ac ymrwymiad i gael pethau'n gywir.

Astudiaeth achos 3
Wrth weithio fel hyfforddwr galwedigaethol CGC, roedd gan Vanessa Shaw o Dde Cymru ddiddordeb brwd mewn gwella gwasanaethau addysg. Pan glywodd fod Estyn yn recriwtio arolygwyr lleyg, roedd yn chwilfrydig i ganfod mwy. Roedd eisoes yn brofiadol mewn llunio barnau a gweithio mewn tîm, a buan y sylweddolodd Vanessa y byddai ei harbenigedd a'i hawydd personol yn gweddu'n dda i'r hyn a ddisgwylir gan arolygydd lleyg.

Ar arolygiadau ysgolion, ar ôl hyfforddi fel arolygydd lleyg, daeth Vanessa â llawer o briodoleddau i'r rôl. O'i safle annibynnol, gofynnodd lawer o gwestiynau o safbwynt rhywun y tu allan i'r broses arolygu, gan godi materion pwysig yn aml. Roedd siarad â disgyblion ac athrawon mewn ysgolion yn rhan arbennig o ddiddorol a difyr yn y rôl.

Cafodd Vanessa lawer o foddhad swydd yn y rôl hon, ac roedd ganddi ddiddordeb mawr mewn gweld sut mae gwahanol ysgolion yn gweithio, ac ar yr un pryd roedd yn dysgu gwybodaeth ac yn datblygu ei medrau.

Mae Estyn hefyd yn dymuno recriwtio pobl i fod yn staff AEM parhaol sydd â phrofiad perthnasol a gyrfa a chefndir eang a llwyddiannus mewn un o'r meysydd canlynol:

- Addysg Sylfaen a Chynradd
- Addysg Uwchradd (ABCh/Addysg Grefyddol neu Ddylunio a Thechnoleg)
- Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) – o gefndir ysgol Gynradd, Uwchradd, Arbennig neu o gefndir Awdurdod Lleol

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 5 Mehefin. Mae mwy o wybodaeth am yrfa ym maes arolygu a phecyn gwybodaeth i'w cael ar ein gwefan, www.estyn.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
E-bost: cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
Ffôn: 02920 446464